**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Wener Mai 1af 2015 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 7 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Roy Tickle, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Apologies:** Cyng Gaynor Morgan Rees, Mark Young, Shereen Devine, Philip Stevens. Cofnodwyd nifer o ymddiheuriadau oddi wrth westeion eraill a wahoddwyd.

1 **Gweddïau:** Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan Gaplan y Maer, y Parchedig Jonathan Smith.

2. **Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, y Cyng Rob Parkes, adolygiad o'r flwyddyn ddinesig 2014 / 2015 gan gyfeirio at uchafbwyntiau'r prif ddigwyddiadau oedd wedi cymryd lle.

3. **Ethol Maer:** Cynigodd y Cyng Colin Hughes, eiliwyd gan y Cyng Roy Tickle, a phenderfynwyd fod y Cyng Raymond Bartley yn cael ei ethol yn Faer am y flwyddyn 2015 / 2016.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Raymond Bartley y Datganiad Statudol yn Derbyn y Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Cyng Rob Parkes Cadwyn y Swydd i'r Cyng Raymond Bartley
Cyflwynodd y Cyn Faeres, Mrs Julia Parkes, Cadwyn Swydd Maeres i Mrs Dorothy Bartley

4. **Cyflwyniad:** Cyflwynodd y Maer, Blac Dinesig a Bathodyn Cyn Faer i'r Cyng Rob Parkes i gofio am ei flwyddyn yn y swydd. Cyflwynodd y Maer, Fathodyn Dinesig i'r Mrs Julia Parkes i gofio am ei blwyddyn yn y swydd.

5. **Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Margaret Bowe bleidlais o ddiolch i'r Cyng Rob Parks am y modd yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2014 / 2015

6. **Adroddiad y Maer:** Diolchodd y Maer newydd i'w Gynigydd a'i Eilydd ac yna anerchodd y cyfarfod.

7. **Ethol Dirprwy Faer:** Cynigodd y Cyng Roy Tickle, eiliwyd gan y Cyng Colin Hughes a phenderfynwyd fod y Cyng Margaret Bowe yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2015 /2016.
Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Margaret Bowe y Datganiad yn Derbyn Swydd ym mhresenoldeb y Cofiadur Anrhydeddus, y Cynigydd a'r Eilydd.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn y Swydd i'r Cyng Margaret Bowe.
Cyflwynodd y Maer Cadwyn Cydwedd y Dirprwy Faer i Mr James Bowe.

8. Adroddiad Presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2014 / 2015: Presenoldeb Cyfartalog ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol oedd 80%. Llongyfarchodd y Maer y Cyng Colin L Hughes am ei bresenoldeb o 95.7%. Mabwysiadwyd yr adroddiad presenoldeb.

9. **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parchedig Wayne Roberts yn Gaplan am y flwyddyn 2015 / 2016.

10. **Gwasanaeth Dinesig:** Datganodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn y Capel Mawr, Dinbych, Dydd Sul Gorffennaf 5ed 2015 am 11.30 o'r gloch y bore.

11. **Y Fendith:** I ddod â'r gweithgareddau i ben, traddodwyd y Fendith gan Gaplan y Maer, y Parchedig Wayne Roberts.